# Datblygu Model Cyflawni Cynaliadwy ar gyfer Adfer Natur yng Nghymru

## Adroddiad Terfynol

Mai 2023



## Ymwadiad

Paratowyd y ddogfen gyfrinachol hon (yr "Adroddiad"), sy'n rhoi manylion am raglenni busnes a gweithrediad presennol a rhai'r dyfodol (yr "Wybodaeth"), gan Finance Earth at ddibenion gwybodaeth yn unig. Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Finance Earth i ddiweddaru, cadw'n gyfredol, cywiro'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn nac i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol, ac mae unrhyw farn a fynegir yn destun newid heb rybudd.

Trwy dderbyn hyn, mae'r derbynnydd yn cydnabod ac yn cytuno (i) na fydd y derbynnydd yn dosbarthu nac yn atgynhyrchu'r Adroddiad yn gyfan gwbl nac yn rhannol ac y bydd yn defnyddio'r Adroddiad hwn at ddibenion gwerthuso diddordeb y derbynnydd yn yr Wybodaeth yn unig; (ii) os na fydd gan y derbynnydd unrhyw ddiddordeb pellach mewn perthynas â'r wybodaeth neu os bydd Finance Earth yn gofyn ar unrhyw adeg, bydd yr Adroddiad hwn, ynghyd â'r holl ddeunydd arall sy'n ymwneud â'r Wybodaeth y gallai'r derbynnydd fod wedi'u derbyn, yn cael eu dychwelyd neu eu dinistrio cyn gynted â phosibl; (iii) ni fydd y derbynnydd yn datgelu i unrhyw drydydd parti bod yr Adroddiad hwn wedi'i ddarparu na bod unrhyw un o'r partïon a enwir yn yr Adroddiad yn ceisio buddsoddiad a (iv) bydd unrhyw gamau arfaethedig gan y derbynnydd nad ydynt yn gyson mewn unrhyw fodd â'r cytundeb a grybwyllwyd uchod yn gofyn am gydsyniad ysgrifenedig Finance Earth ymlaen llaw.

Nid yw'r Adroddiad hwn yn gyfwerth ag, nac yn rhan o, unrhyw gynnig neu wahoddiad i werthu neu gyhoeddi, neu unrhyw ddeisyfiad am unrhyw gynnig i brynu neu danysgrifio ar gyfer, unrhyw gyfranddaliadau neu unrhyw warannau eraill. Yn ogystal, ni fwriedir iddo fod yn sail, na gweithredu fel ysgogiad i ymrwymo i unrhyw gontract neu weithgaredd buddsoddi ac ni ddylid ei ystyried yn argymhelliad gan Finance Earth na'i gyfarwyddwyr na'i gysylltiedigion perthnasol mewn perthynas â'r Wybodaeth. Ni fydd unrhyw brosbectws yn cael ei gyflwyno at ddibenion Cyfarwyddeb Brosbectws yr UE, fel y'i diwygiwyd gan y Gyfarwyddeb Ddiwygio.

Mae Finance Earth yn enw masnachu ar Environmental Finance Limited, cwmni preifat wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (08195029) y mae ei swyddfa gofrestredig yn W106 Vox Studios, 1-45 Durham Street, Llundain, Lloegr, SE11 5JH. Mae Environmental Finance Limited wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan rif cofrestru 831569.

## Cydnabyddiaethau

Mae allbynnau'r adroddiad hwn a'r hyn a ddysgwyd yn ganlyniad ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid. Hoffai Partneriaid y Prosiect ddiolch i bawb a gyfrannodd yn hael, gan gynnwys:

- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Butterfly Conservation;
- Câr-y-Môr;
- Prifysgol Caerdydd;
- Confor;
- Ystad y Goron;
- Cyngor Sir Ddinbych;
- Dŵr Cymru Welsh Water;
- Esmée Fairbairn Foundation;
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW);
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi;
- Cyngor Sir Ynys Môn;
- John Muir Trust;
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU);
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
- Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur Cymru;
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant;
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Fforwm Arfordir Sir Benfro;
- Partneriaeth Natur Sir Benfro;
- Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed;
- Parc Cenedlaethol Eryri;
- Cyngor Abertawe;
- Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA);
- Tîm Prosiect Pumlumon;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- Llywodraeth Cymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru;
- Coed Cadw;
- Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF).

# Crynodeb Gweithredol

### Cyd-destun y prosiect

Mae Cymru'n adnabyddus am ei hadnoddau naturiol cyfoethog a'i hecosystemau unigryw, sy'n darparu ystod o wasanaethau gwerthfawr i'r amgylchedd ac i gymunedau lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol yn cael eu colli yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif o fathau o gynefinoedd yng Nghymru wedi gweld gostyngiad mewn amrywiaeth, gyda chyfradd y gostyngiad yn cynyddu dros y 50 mlynedd diwethaf.[1] Mae adroddiadau diweddar wedi amlygu bod poblogaethau adar tir ffermio, mamaliaid, amffibiaid, pryfed ac infertebratau i gyd wedi haneru yng Nghymru dros yr un cyfnod.[2]

Cydnabyddir yr angen i gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r golled hon yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru, sy'n nodi camau i wrthdroi'r gostyngiad mewn bioamrywiaeth wrth bwysleisio'r angen i archwilio mecanweithiau i gynyddu buddsoddiad preifat. Mae adfer natur yng Nghymru wedi cael ei ariannu i raddau helaeth gan wariant cyhoeddus a dyngarwch. Daeth adroddiad diweddar i'r casgliad bod Cymru yn wynebu bwlch ariannol o £5-7bn ar gyfer targedau sy'n gysylltiedig â natur dros y 10 mlynedd nesaf.[3] Mae cynyddu buddsoddiad, sy'n debygol o fod yn gymorth gan y sector preifat yn bennaf, yn hanfodol i helpu i lenwi'r bwlch hwn a chyflawni uchelgeisiau Gweinidogion ar gyfer yr amgylchedd.

Mae Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (UNEP) yn nodi bod 'atebion sy'n seiliedig ar natur' (NbS) yn hanfodol i wrthdroi effeithiau dinistriol newid hinsawdd, yr argyfwng difodiant a dirywiad tir yn fyd-eang.[4] Mae NbS yn cefnogi creu ffrydiau refeniw sy'n seiliedig ar gyfalaf naturiol trwy werthu gwasanaethau ecosystemau a chynhyrchion cysylltiedig megis credydau carbon, maethynnau a bioamrywiaeth. Mae datblygu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau yn ffordd allweddol o hwyluso buddsoddiad preifat i gefnogi adfer natur yng Nghymru; fodd bynnag, i raddau helaeth, parhau heb eu datblygu lawer y mae'r marchnadoedd hyn ledled Cymru.

Comisiynwyd Finance Earth, Eunomia ac RSPB Cymru gan Lywodraeth Cymru i nodi a dadansoddi'r rhwystrau penodol i ddatblygiad y farchnad gwasanaethau ecosystemau a chynnig atebion polisi posibl trwy archwilio modelau ac ymyriadau a allai helpu i gynyddu buddsoddiad trachywir i adfer natur, fel y mae'r adroddiad hwn yn manylu. Cynhaliwyd proses ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid gan Eunomia a Finance Earth gyda 30 o sefydliadau i gasglu mewnwelediadau allweddol gan gyfranogwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Hefyd, trefnwyd nifer o 'archwiliadau dwfn' gan RSPB Cymru i drafod y canfyddiadau o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu mewnwelediad ychwanegol yn seiliedig ar eu profiad eang o ddarparu adfer a diogelu natur ar lawr gwlad.

Y prif wasanaethau ecosystemau a'r marchnadoedd cysylltiedig a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer adfer natur yng Nghymru yw:

- **Lleihau a dileu allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$),** trwy greu coetiroedd ac adfer mawndiroedd, yn seiliedig ar werthu credydau carbon ym marchnad wirfoddol y DU;
- **Gwasanaethau ecosystemau ar ffermydd,** yn seiliedig ar werthu canlyniadau amgylcheddol a grëir trwy arferion ffermio sy'n fwy cyfeillgar i natur ac sy'n well ar gyfer ailwladychu, megis atafaelu carbon gan y pridd a chan wrychoedd;
- **Rheoli llifogydd yn naturiol,** yn seiliedig ar werthu canlyniadau lleihau perygl llifogydd sy'n deillio o Atebion sy'n Seiliedig ar Natur (NbS) megis cynlluniau adlinio a reolir a gwlyptiroedd eraill;
- **Ansawdd dŵr,** yn seiliedig ar werthu credydau maethynnau;

- **Bioamrywiaeth**[1], yn seiliedig ar werthu unedau neu gredydau bioamrywiaeth a grëir trwy brosiectau creu ac adfer cynefinoedd ar y tir ac yn yr amgylchedd morol; a
- **Hamdden**, yn seiliedig ar incwm a grëir o weithgareddau a thwristiaeth sy'n seiliedig ar natur.

### Crynodeb o'r rhwystrau

Nododd y broses helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid, archwiliadau dwfn ac ymchwil ehangach nifer o rwystrau i adfer natur. Amlinellir isod chwe chategori eang o rwystrau, a manylir arnynt ymhellach drwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae bylchau yn y gallu, y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau. Mae'r rhwystrau a nodwyd yn ymwneud â chyfyngiadau o ran gallu mewn cadwyni cyflenwi NbS, sy'n amrywio o wybodaeth annigonol am farchnadoedd, codau cysylltiedig a chyfleoedd cyllido cadwraeth, i allu ymarferol ar lawr gwlad i gyflawni prosiectau adfer natur. Yn benodol, mae diffyg cymuned o ddatblygwyr ar draws cyrff anllywodraethol amgylcheddol (eNGO), Partneriaethau Natur Lleol a sectorau preifat, sy'n gallu creu a chyflawni prosiectau uchel eu heffaith wrth ymgysylltu â chymunedau lleol i archwilio sut y gallant elwa o brosiectau gwasanaethau ecosystemau.

Mae diffyg seilwaith marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae diffyg offer a fframweithiau ategol megis cyfrifianellau, cofrestrfeydd, codau, a llwyfannau masnachu gwasanaethau ecosystemau, sydd eu hangen i gefnogi gweithredu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau a'u datblygu ymhellach.

Mae diffyg sbardunau cydymffurfio a galw gwirfoddol sydd eu hangen i gefnogi datblygu'r farchnad. Mae'r cymelliadau i sbarduno'r galw am wasanaethau ecosystemau, sydd eu hangen i gefnogi datblygu'r farchnad, yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid oes unrhyw rwymedigaeth bresennol na disgwyliedig ar ddatblygwyr i ddigolledu am y fioamrywiaeth a gollir yn sgil gwaith adeiladu. Heb alw disgwyliedig am wasanaethau amgylcheddol, nid oes gan berchnogion tir y llif refeniw diogel i gasglu buddsoddiad i ymgymryd â phrosiectau adfer natur.

Mae diffyg hyder yn y ffrydiau refeniw y gall gwasanaethau ecosystemau eu creu. Oherwydd cyfuniad o ddiffyg polisi cefnogol ac, mewn rhai achosion, cyllid cyhoeddus annigonol ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystemau, nid yw rhanddeiliaid yng Nghymru yn hyderus o ran creu refeniw, neu ddigon o refeniw i dalu costau. Mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau sydd o hyd yn eu camau cynnar (e.e. nifer o farchnadoedd gwasanaethau ecosystemau morol), heb godau neu safonau sefydledig i lywio eu mesur, mae hyd yn oed llai o hyder.

Mae diddordeb buddsoddwyr mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg aeddfedrwydd y marchnadoedd hyn. Gan fod llawer o'r marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru yng nghamau cyntaf eu haeddfedrwydd, y duedd yw bod diffyg llifoedd arian rhagweladwy, a phrinder tystiolaeth ohonynt, ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth am yr enillion posibl i fuddsoddwyr y gall prosiectau gwasanaethau ecosystemau eu sicrhau, er mwyn denu buddsoddwyr. Ar ben hynny, mae maint prosiectau sy'n deillio o wasgariad perchnogaeth tir yng Nghymru, lle nad oes llawer o glystyrau ffermio neu gydgasglwyr yn gweithredu yn y farchnad, yn golygu bod cyfleoedd yn dueddol o fod yn rhy fach i fodloni parodrwydd buddsoddwyr i dderbyn risg o'i chymharu â'r adenillion neu i dalu costau trafodion yn ddigonol.

Mae pryderon parhaus yn ymwneud ag uniondeb y farchnad gwasanaethau ecosystemau. Mae pryderon sylfaenol yn bodoli am y risg o wyrddgalchu, effeithiau posibl ar ddiogelwch bwyd, diogelu swyddi traddodiadol lleol a threftadaeth, yn ogystal ag am fynediad at dir a thai, wrth i farchnadoedd gwasanaethau ecosystemau ehangu.

[1] Nid yw bioamrywiaeth yn tueddu i gael ei ystyried yn wasanaeth ecosystem ynddo'i hun, gan mai gwasanaethau ecosystemau yw'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae bioamrywiaeth yn eu darparu. Fodd bynnag, at ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn ystyried marchnadoedd mewn credydau/unedau bioamrywiaeth i fod yn farchnad gwasanaeth ecosystem.

### Modelau busnes i gefnogi adfer natur

Pan fydd parodrwydd i dalu am wasanaethau ecosystemau, bydd marchnad yn cael ei chreu. Gall ymgysylltu yn y marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau hynny ddigwydd trwy amrywiaeth o fodelau busnes, fel y manylir ymhellach yn yr adroddiad hwn, ac y mae modd eu grwpio fel a ganlyn:

1. **Modelau sy'n seiliedig ar ganlyniadau –** taliadau am ganlyniadau penodol, a allai gynnwys credydau neu unedau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ecosystemau a grëir drwy ddilyn cod sefydledig neu set o ddangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt;
2. **Modelau cadwyni cyflenwi –** taliadau neu ardollau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion o fewn cadwyni cyflenwi gan gyfranogwyr cadwyni cyflenwi i ariannu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd megis arferion ailwladychu, monitro gwyddonol ac adrodd; a
3. **Modelau sy'n seiliedig ar drethi neu dariffau –** codi trethi, dirwyon neu ardollau ar gynhyrchion, gwasanaethau neu weithgareddau, megis ardrethi busnes lleol neu godi tâl am fynediad i safleoedd twristiaeth, er mwyn helpu i ariannu adfer natur.

Mae'n bosibl y bydd nifer o brosiectau'n cynnwys cyfuniad o'r modelau busnes hyn, er enghraifft trwy sefydlu cyfuniad o ardollau neu drethi a thaliadau am ganlyniadau amgylcheddol. Bydd y defnydd o'r modelau hyn yn cynnwys amrywiaeth o rolau a rhanddeiliaid, gan gynnwys prynwyr, gwerthwyr, cyfryngwyr, buddsoddwyr preifat, gwirwyr, rheoleiddwyr a llunwyr polisi. Er y gallai fod modd i rai randdeiliaid gael mwy nag un rôl, mae pob rôl yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gyflwyno prosiectau gwasanaethau ecosystemau a'u llwyddiant.

Mae gan lywodraethau a llunwyr polisi rolau pwysig i'w chwarae wrth gefnogi cyflwyno modelau busnes a datblygu a gweithredu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau trachywir. Mae rhai o rolau allweddol llywodraethau a llunwyr polisi yn cynnwys:

**Creu amodau galluogi i gefnogi'r galw am brosiectau gwasanaethau ecosystemau a'r cyflenwad o brosiectau trachywir.** Byddai hyn yn cynnwys ar ochr y galw, sefydlu gofynion rheoleiddio a chymelliadau am wasanaethau ecosystemau (gyda chanolbwynt ar sectorau allweddol megis datblygu eiddo, dŵr ac ynni); ac ar yr ochr gyflenwi, sefydlu meini prawf a thargedau i arwain defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol, gyda mecanweithiau monitro a gorfodi effeithiol.

**Darparu cymorth ariannol i seilwaith y farchnad.** Gallai hyn gynnwys datblygu codau a safonau yn ogystal â chyllid i gynyddu'r prosiectau a gyflwynir a dangos canlyniadau i annog mwy o gyfranogi mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau ar yr ochr gyflenwi ac ar ochr y galw.

**Cefnogi ymchwil a rhannu gwybodaeth i wella'r ddealltwriaeth o farchnadoedd gwasanaethau ecosystemau a chyfleoedd, buddion a chyfyngiadau cyflwyno prosiectau.** Dylid targedu cefnogaeth i feysydd lle nodwyd bylchau penodol a rhwystrau penodol i'r farchnad. Gall hyn gynnwys datblygu a chyflwyno strategaethau ymchwil ecosystemau wedi'u targedu, ariannu prosiectau ymchwil, creu llwyfannau i rannu gwybodaeth, a chefnogi mentrau meithrin gallu i randdeiliaid sy'n cymryd rhan mewn prosiectau gwasanaethau ecosystemau.

### Ystyriaethau polisi ac ymyriadau posibl i Lywodraeth Cymru

Gan adfyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid a phrofiad ehangach partneriaid y prosiect, nodwyd ystod o ystyriaethau polisi ac ymyriadau allweddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu'r farchnad gwasanaethau ecosystemau. Mae mwy o fanylion yn yr adroddiad hwn am yr ystyriaethau a'r ymyriadau posibl hyn a allai hwyluso a chyflymu datblygu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau trachywir, mawr eu maint yng Nghymru, a thynnir sylw isod at yr ymyriadau â blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru:

Sefydlu mecanweithiau gwarantu refeniw i ddenu buddsoddiad preifat. Gallai'r mecanwaith hwn roi sicrwydd am ffrydiau refeniw yn y dyfodol, gan ddiogelu rhag y risg y bydd prisiau'r farchnad gwasanaethau ecosystemau yn gostwng a chaniatáu elwa o brisiau sy'n codi.

Datblygu llwyfannau masnachu credydau neu unedau gwasanaethau ecosystemau, sy'n rhanbarthol neu sy'n seiliedig ar ddalgylch, i hwyluso cysylltiadau rhwng prynwyr, gwerthwyr a buddsoddwyr gwasanaethau ecosystemau. Byddai llwyfannau o'r fath yn caniatáu prynu neu werthu canlyniadau gwasanaethau ecosystemau ar lefel ranbarthol neu ar lefel y dalgylch. Byddai hyn yn cefnogi perchnogion tir i greu refeniw trwy gyflwyno prosiectau gwasanaethau ecosystemau a phrynwyr i nodi'n haws canlyniadau gwasanaethau ecosystemau sy'n bodloni eu hamcanion amgylcheddol.

Sefydlu adnodd budd net ar gyfer lliniaru effeithiau amgylcheddol datblygiadau newydd, a rhwymedigaeth i ddefnyddio'r adnodd o fewn polisi cynllunio. Byddai'r ymyriad hwn yn creu galw am ddigolledio ac unedau budd net ychwanegol, sef y sail sylfaenol sydd ei hangen ar farchnadoedd gwasanaethau ecosystemau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth i ddatblygu.

Sefydlu Fframwaith Cymru 'Gorau o'i Fath' a allai fynd y tu hwnt i safonau gwirfoddol presennol a datblygol. Byddai'r fframwaith yn galluogi gwirio'n annibynnol bod prosiectau yn cyflawni buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, i sicrhau ansawdd ac uniondeb marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau Cymru.

Cyflwyno Cymhelliad Cyflawni Canlyniadau naturiol, seiliedig ar gyfalaf i annog cwmnïau dŵr i greu buddion cyhoeddus sydd y tu hwnt i gyflenwad dŵr. Byddai'r cymhelliad yn galluogi ystyried ymyriadau NbS yn ehangach ochr yn ochr ag atebion seilwaith llwyd traddodiadol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

### Cynnal fersiynau peilot o gyfleoedd i gefnogi adfer natur

Mae llawer o'r modelau busnes a'r ymyriadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn o hyd yn y camau cynnar o ran eu defnyddio i gefnogi adfer natur. Gallai peilota'r dulliau hyn fod yn ffordd werthfawr o benderfynu sut i brofi achosion technegol ac ariannol ar gyfer buddsoddiad, nodi a mynd i'r afael â heriau ychwanegol, meithrin gallu, creu sylfaen dystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

I gyd-fynd â'r rhwystrau a nodwyd, yr asesiad o ba fodelau busnes a allai fod fwyaf effeithiol yng Nghymru ac ymyriadau â blaenoriaeth y llywodraeth i gefnogi prosiectau trachywir, datblygwyd ac aseswyd rhestr hir o gyfleoedd peilot. Arweiniodd hyn at restr fer o gyfleoedd peilot a argymhellir fel yr amlinellir isod:

- Treialu taliadau ffermio ystyriol o natur ar gyfer modelau a fydd yn sicrhau llwybr gwerthu i wasanaethau a chynhyrchion ecosystemau;
- Profi set o egwyddorion 'Gorau o'u Bath' i Gymru ar gyfer ymgysylltu â'r farchnad gwasanaethau ecosystemau i annog cyfranogiad trachywir gan werthwyr a phrynwyr, gyda chanolbwynt ar farchnadoedd carbon coetiroedd a mawndiroedd;
- Archwilio amaethu mawndiroedd a ffermio gwlyb fel modd o gymell ailwlychu ac adfer mawn sydd wedi'i ddifrodi;
- Cychwyn neu gynyddu llwyfannau masnachu maethynnau sy'n seiliedig ar ddalgylch;
- Cyflwyno taliadau lleihau'r risg o lifogydd ar gyfer atebion Rheoli Llifogydd yn Naturiol;
- Profi modelau bancio cynefinoedd neu fuddion net ar gyfer safleoedd ynni adnewyddadwy ar y môr gyda chanolbwynt ar fioamrywiaeth forol;
- Profi a chynyddu taliadau ar gyfer modelau a fydd yn sicrhau llwybr gwerthu i wasanaethau a chynhyrchion ecosystemau ym maes amaethu morol ailwladychu (e.e. ffermio wystrys, cregyn gleision, gwymon); a
- Phrofi modelau Ardaloedd Gwella Busnes Twristiaeth a chymelliadau rhyddhad ardrethi lleol i godi arian ar gyfer adfer natur mewn ardaloedd sy'n allweddol i dwristiaeth megis Parc Cenedlaethol Eryri.

Gellid ystyried sefydlu rhaglen ariannu datblygu parodrwydd i fuddsoddi sydd wedi'i thargedu at feysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad i Lywodraeth Cymru, fel dull posibl o ariannu'r prosiectau peilot hyn. Gallai'r rhaglen gefnogi cymorth technegol a meithrin gallu gan alluogi datblygwyr a phartneriaid i ddangos canlyniadau a chreu modelau busnes cadarn sydd â'r potensial i ddenu buddsoddiad.

### Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

Isod crynhoir y prif ganfyddiadau ar ôl asesu pob un o’r marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau â blaenoriaeth, â gwybodaeth fanwl a gasglwyd drwy’r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, archwiliadau dwfn ac ymchwil bwrdd gwaith ehangach:

Mae angen arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru ar rôl buddsoddiad preifat ym myd natur. Nid oes gan y sector cyhoeddus a’r sector dyngarol ar eu pennau eu hunain ddigon o adnoddau i gyflawni targedau amgylcheddol Cymru. Ochr yn ochr ag ymdrechion i annog cyfalaf preifat, mae gan y llywodraeth rôl hanfodol i’w chwarae wrth lunio a thywys marchnadoedd preifat i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mynegodd rhanddeiliaid bryderon, heb reolaeth a/neu gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, nad yw sawl prosiect a chynllun buddsoddi annibynnol a sefydlwyd ar ddaliadau tir mawr wedi gwneud y gorau o’r buddion i’r amgylchedd nac i gymunedau lleol.

Marchnadoedd carbon gwirfoddol yw'r farchnad fwyaf aeddfed yn y DU gyda'r potensial i gefnogi prosiectau aml-fudd o ansawdd uchel ond ni welwyd y rhain ar raddfa fawr hyd yn hyn yng Nghymru. Marchnadoedd carbon gwirfoddol yw’r marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau mwyaf datblygedig a’r rhai sy’n tyfu gyflymaf yn y DU ac maent wedi’u sefydlu i ryw raddau yng Nghymru gyda rhai prosiectau Cod Carbon Coetiroedd a Chod Mawndiroedd wedi’u cofrestru yn y wlad. Fodd bynnag, mae mabwysiadu a chynyddu’r codau hyn ar raddfa eang yn wynebu amrywiaeth o rwystrau ledled Cymru a cheir pryderon ynghylch a yw prosiectau’n bodloni blaenoriaethau ehangach Cymru yn ddigonol.

Mae marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau datblygol yn cyflwyno cyfleoedd pwysig i greu refeniw ac arallgyfeirio i ffermwyr sy’n ystyriol o natur ledled Cymru. Cyfyngedig o hyd yw ymgysylltiad ffermwyr â gwerthu cynhyrchion gwasanaethau ecosystemau o ddulliau ffermio sy’n ystyriol o natur, er y galw cynyddol gan gorfforaethau sydd â diddordeb mewn ‘gwyrddu’ eu cadwyni cyflenwi. Yn gyffredinol, mae diffyg dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a seilwaith marchnad i gefnogi ffermwyr sydd â diddordeb mewn arallgyfeirio eu refeniw trwy ymgysylltu â marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau. Gan fod cyfran fawr o dir Cymru wedi'i dynodi'n Ardal Lai Ffafriol (LFA) ar gyfer amaethyddiaeth, mae cryn botensial i fabwysiadu arferion rheoli tir a defnyddiau tir amgen i arallgyfeirio incwm a chyfrannu at adfer natur.

Mae angen clir am gymorth ar gyfer prosiectau peilot fel catalydd i ddatblygu marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau trachywir. Cadarnhaodd nifer o randdeiliaid o’r sector eNGO, y sector perchnogaeth tir a’r sector preifat yr angen i brofi a mireinio modelau busnesau sy’n seiliedig ar wasanaethau ecosystemau, sefydlu seilwaith marchnad megis llwyfannau gwirio a masnachu, datblygu templedi contractau a sbarduno gwelliannau mewn arfer gorau adfer natur trwy brosiectau ar lawr gwlad, ac mae pob un o’r rhain yn angenrheidiol i gyflymu’r marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau datblygol. Gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio sefydliadau sydd eisoes yn bodoli megis Banc Datblygu Cymru (DWB) a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu cyllid catalytig a mynediad i diroedd cyhoeddus i ariannu a threialu dulliau newydd, arloesol, a thrwy hynny ddarparu glasbrintiau enghreifftiol i helpu i fagu hyder mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau.

Mae’r gymuned perchnogaeth tir yn amharod i gymryd rhan mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau oherwydd ansicrwydd ynghylch goblygiadau masnachol hirdymor mewn perthynas â gofynion rheoleiddio a chynlluniau cymhelliant. Nododd nifer o randdeiliaid, yn enwedig perchnogion tir, fod y diffyg eglurder ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac unrhyw ofynion yn y dyfodol i ffermydd fod yn 'sero net' yn rhwystr mawr i wneud yr ymrwymiadau cytundebol hirdymor i’r newid mewn defnydd tir sy’n angenrheidiol i gymryd rhan mewn nifer o’r marchnadoedd hyn, hyd yn oed pan dderbynnir ei fod o fudd i natur a chymunedau.

### Crynodeb o’r prif argymhellion

Yng ngoleuni'r canfyddiadau allweddol hyn, ac i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fuddsoddiad a'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad hwn, paratowyd y set ganlynol o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru i:

**Gefnogi llwybrau buddsoddi trwy ddarparu cymorth parodrwydd i fuddsoddi "o'r gwaelod i fyny" a chyfalaf buddsoddi ad-daladwy colled gyntaf/consesiynol "o'r brig i lawr".** Mae angen cymorth ariannol ar ddatblygwyr prosiectau i ganfod a mireinio modelau busnes gwasanaethau ecosystemau ac adeiladu cynigion y gellir buddsoddi ynddynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddatblygu achosion technegol ar gyfer creu gwasanaethau ecosystemau o ymyriadau sy'n seiliedig ar natur, cymorth ar gyfer trafodaethau masnachol gyda buddiolwyr, a chymorth ar gyfer adeiladu'r modelau cyllido a'r ddogfennaeth ymgysylltu â buddsoddwyr i helpu i sicrhau cyllid pan fydd angen buddsoddiad ymlaen llaw.

**Sefydlu egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r farchnad gwasanaethau ecosystemau trachywir a chod 'Gorau o'i Fath' yng Nghymru.** Gallai Llywodraeth Cymru helpu i greu amgylchedd galluogi ar gyfer marchnadoedd preifat o ansawdd uchel trwy weithio gyda'r sectorau eNGO, ffermio a physgodfeydd i sefydlu set o egwyddorion sy'n diffinio'r hyn y mae ansawdd uchel yn ei olygu mewn marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau ledled Cymru, wedi'u teilwra i anghenion penodol y wlad a'r cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol. Gallai hyn helpu i leddfu pryderon rhanddeiliaid y bydd marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau yn arwain at newid defnydd tir amhriodol, gan effeithio ar ddiogelwch bwyd Cymru a bywoliaethau gwledig, yn enwedig os byddai modd i'r canllawiau fod yn rhan o fframwaith defnydd tir. Gallai datblygu cod "Gorau o'i Fath" i Gymru, sy'n ategol i godau presennol a datblygol, fynd i'r afael â phryderon nad yw'r codau a'r safonau presennol yn gwneud digon i wella bioamrywiaeth neu gyflwyno buddion cymdeithasol ehangach, nac i sicrhau monitro a rheoli prosiectau yn barhaus.

**Egluro rôl y sector cyhoeddus wrth gefnogi marchnadoedd preifat trwy ddiwygio ac ailgynllunio cynlluniau cymhorthdal amgylcheddol**. Byddai strwythuro cymorthdaliadau fel gwarantau refeniw tymor hwy, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, yn helpu i ddenu buddsoddiad preifat a gallai alluogi cynlluniau cyhoeddus i gael llawer mwy o effaith, o bosib, am yr un lefel o fuddsoddiad. Byddai hefyd yn annog y farchnad i ddatblygu ar sail canlyniadau sy'n cael eu gwirio'n annibynnol.

# Gwybodaeth am Bartneriaid y Prosiect

## Finance Earth

Finance Earth yw bwtîg buddsoddi mewn effaith amgylcheddol mwyaf blaenllaw'r DU, ac mae'n darparu gwasanaethau cynghori ariannol a rheoli cronfeydd ar draws yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae Finance Earth yn helpu i greu prosiectau – a'r cyfryngau buddsoddi i'w hariannu – sy'n cydbwyso canlyniadau cadarnhaol ar gyfer natur, cymunedau a buddsoddwyr.

Mae Finance Earth yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o gleientiaid gan gynnwys cyrff anllywodraethol, y llywodraeth, mentrau cymdeithasol, sefydliadau a chorfforaethau cydnaws i greu prosiectau amgylcheddol a chymdeithasol y gellir buddsoddi ynddynt. Ar yr un pryd, mae Finance Earth yn gweithio gydag ystod o fuddsoddwyr i strwythuro cynhyrchion ariannol a all gyflymu diogelu ac adfer natur. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn rheoli dros £50 miliwn o gronfeydd effaith cymdeithasol ac amgylcheddol cyfunol ac mae wedi dylunio dros £500 miliwn o strwythurau buddsoddi mewn effaith.

Mae Finance Earth yn fenter gymdeithasol sydd ym mherchnogaeth lwyr eu cyflogeion, ac mae 51% o'i elw yn cael ei ailgylchu i weithgareddau a buddsoddiadau sy'n cyd-fynd â'i genhadaeth.

Mae Finance Earth yn enw masnachu ar Environmental Finance Limited, sydd wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rhif cofrestru: 831569).

## Eunomia

Mae Eunomia Research & Consulting Ltd ('Eunomia') yn ymgynghoriaeth annibynnol sy'n canolbwyntio ar ychwanegu gwerth at sefydliadau trwy gyflawni gwell canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym yn cyfuno profiad ymarferol â rhagoriaeth academaidd, i gynnig atebion creadigol, seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi llunio polisïau a strategaethau busnes sydd â chynaliadwyedd wrth eu gwraidd. Mae Eunomia yn gynghorydd penodedig i sawl math o sefydliad gan gynnwys llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a rhanbarthol, cyfleustodau cenedlaethol, cwmnïau rheoli gwastraff a thechnoleg, a sefydliadau ariannol byd-eang.

Mae Eunomia yn cyflogi dros 130 o ymgynghorwyr. Mae ein prif swyddfa ym Mryste ac mae gennym swyddfeydd hefyd yn Llundain, Manceinion, Athen, Brwsel, Efrog Newydd ac yn Auckland, yn cyflawni gwaith ledled y DU, aelod-wladwriaethau'r UE, yr UDA a thu hwnt. A ninnau wedi'n sefydlu fel ymgynghoriaeth gwastraff ac ailgylchu yn 2001, rydym bellach yn cyflawni gwaith arbenigol ar draws meysydd pwnc sy'n cwmpasu newid hinsawdd, datgarboneiddio a'r economi gylchol, gan barhau i ddarparu cymorth cynghorol a gweithredol o ansawdd uchel yn y sector gwastraff ac ailgylchu.

## RSPB Cymru

Mae RSPB Cymru yn rhan o’r RSPB.

Ein gweledigaeth yw byd a rennir lle mae bywyd gwyllt, lleoedd gwyllt a phob person yn ffynnu. Credwn ein bod i gyd wedi ein cysylltu gan ryfeddod natur. Mae iechyd y byd naturiol yn hanfodol i oroesiad pob rhywogaeth ac mae ganddo'r hawl i ffynnu. Gwyddom fod adar, bywyd gwyllt arall a'r cynefinoedd y mae'r rhain yn dibynnu arnynt wedi’u cydgysylltu. Rydym yn cydnabod bod iechyd a gwytnwch unigolion, ein cymdeithas a'r economi yn dibynnu ar iechyd a chynaliadwyedd ecosystemau'r blaned. Credwn ein bod yn cael yr effaith fwyaf pan fydd ein strategaeth wedi’i llywio gan ein dealltwriaeth o gyflwr rhywogaethau ac ecosystemau a chan ein credoau craidd.

Bydd llif datrysiadau sy’n seiliedig ar natur yn esgor ar fuddion i’r amgylchedd, i’r economi ac i gymunedau lleol. Bydd yn cyflwyno cyfleoedd i’r sector corfforaethol a’r sector ariannol fuddsoddi yn y byd naturiol a chyrraedd targedau pontio sy’n seiliedig ar yr hinsawdd ac ar natur wrth ddiwallu anghenion cymdeithas a’u cyfranddalwyr. Mae rôl hanfodol i ddyngarwch, ochr yn ochr â chyllid cyhoeddus i gefnogi datblygu datrysiadau cyllid arloesol ar gyfer natur, gan ddwyn gwybodaeth, arbenigedd a chyllid hanfodol i helpu i ddatgloi buddsoddiad effaith a goresgyn rhwystrau i lwyddiant.

Mae natur mewn argyfwng a gyda’n gilydd gallwn ei achub.

Mae’r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig:
Cymru a Lloegr rhif 207076, yr Alban rhif SC037654

The Royal Society for the Protection of Birds (RSPB) is a registered charity:
England and Wales no. 207076, Scotland no. SC037654.

## Am fwy o wybodaeth am gynnwys y ddogfen hon, cysylltwch â:

**Elizabeth Beall**
Cyfarwyddwr Cynghori
E: elizabeth@finance.earth

**Rich Fitton**
Uwch Gyfarwyddwr Cyswllt
E: rich.fitton@finance.earth

**Paveen Ghalay**
Cyswllt
E: paveen@finance.earth

**Anna Halliday**
Uwch Ddadansoddwr
E: anna@finance.earth

**Tanzir Choudhury**
Prif Economegydd Amgylcheddol
E: tanzir.choudhury@eunomia.co.uk

**Rob Daniel**
Uwch Ymgynghorydd
E: rob.daniel@eunomia.co.uk

**Lorna Fox**
Rheolwr Datblygu Prosiect – Cymru
E: lorna.fox@rspb.org.uk

[1] Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhagfyr 2020. Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
[2] RSPB. Awst 2022. The proposed Sustainable Farming Scheme (SFS) in Wales is published.
[3] Green Finance Institute, eftec a Rayment Consulting. Gorffennaf 2021. The Finance Gap for UK Nature
[4] UNEP. Rhagfyr 2022. Decent Work in Nature-based Solutions.